# PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD
## DYDD IAU 12FED O DACHWEDD 2015

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd A.P. Cooper (Cadeirydd)**

**Y Cynghorwyr: A. Davies, J.A. Davies, D.C. Evans, I.J. Jackson, A. James, S.E. Thomas a D.E. Williams**

**Cyng. D.J.R. Bartlett – Yn dirprwyo ar ran y Cyng. W.G. Thomas**
**Cyng. C.A. Campbell – Yn dirprwyo ar ran y Cyng. W.J. Lemon**
**Cyng. J.D. James – Yn dirprwyo ar ran y Cyng. K.P. Thomas**
**Cyng. M.J.A Lewis – Yn dirprwyo ar ran y Cyng. A. Davies**
**Cyng D.W.H. Richards – Yn dirprwyo ar ran y Cyng. D.B. Davies**

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

Mrs. R. Mullen - Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
Mr. M. Cresci - Pennaeth Gwasanaethau Stryd
Mr. M.V. Davies - Pennaeth Dros-Dro Cynnal Eiddo ac Adeiladwaith
Mr. S. Pilliner - Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianneg
Mr. R. Staines - Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd
Mr. R. Edmunds - Rheolwr Gwasanaethau Safonau Masnach
Ms. J. Edwards - Prif Swyddog Busnes a Datblygu
Ms. R. James - Cyfrifydd Grŵp
Mr. J. McEvoy - Rheolwr Traffig a Diogelwch ar y Ffyrdd
Ms. K. Thomas - Rheolwr Diogelwch Cymunedol
Mrs. S.E. Watts - Rheolwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd
Mr. A. Williams - Rheolwr Gwasanaethau Stryd

Mrs. M. Kathrens – Cynorthwy-ydd Technegol (Gwasanaethau Stryd)

**Lleoliad:** Siambr, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin – 10:00 - 11:05yb

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A. Davies, D.B. Davies, W.J. Lemon, A.D.T. Speake, K.P. Thomas ac W.G. Thomas.

Hefyd cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd H.A.L. Evans (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros y Gwasanaethau Technegol) a'r Cynghorydd T.J Jones (Aelod o’r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd).

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mrs Ruth Mullen i'w chyfarfod cyntaf fel Cyfarwyddwr newydd Adran yr Amgylchedd.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod(ion) | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Y Cyng. D.W.H. Richards | 6. Adroddiad Monitro ynghylch Cyllideb Refeniw a Chyllideb Gyfalaf 2015/16 | Perchennog tir ger Cronfa Ddŵr Trebeddrod yn Llanelli |

## 3. DATGAN CHWIP WAHARDDEDIG

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip.

## 4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

## 5. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Atgoffwyd y Pwyllgor gan y Cadeirydd fod Seminar Cyllideb Adran yr Amgylchedd ar gyfer aelodau yn cael ei gynnal ddydd Mawrth 8 Rhagfyr am 2:00pm yn Y Ffwrnes, Llanelli.

**PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ddydd Gwener, 11eg Rhagfyr 2015.**

## 6. ADRODDIAD MONITRO YNGHYLCH CYLLIDEB REFENIW A CHYLLIDEB GYFALAF 2015/16

*Roedd y Cynghorydd D.W.H. Richards wedi datgan buddiant sef ei fod yn berchennog tir ger Cronfa Ddŵr Trebeddrod yn Llanelli*

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer Adran yr Amgylchedd, Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd a'r Tîm Diogelwch Cymunedol, fel yr oedd ar 31ain Awst 2015, mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2015/16. Codwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:

Cyfeiriwyd at atal wyth aelod o staff o Adran yr Amgylchedd yn ddiweddar a gofynnwyd sut roedd y gwasanaethau'n ymdopi heb y nifer cyflawn o staff a pha effaith roedd hynny'n ei chael ar gyllideb yr Adran. Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Stryd wybod i'r Pwyllgor fod y gwasanaethau yn gweithredu cynlluniau eraill yn sgil yr absenoldebau staff, fel oedd yn digwydd wrth ymdrin ag absenoldeb salwch neu wyliau blynyddol. Mewn rhai sefyllfaoedd, roedd gweithwyr asiantaeth yn cael eu cyflogi i gyflenwi yn absenoldeb staff craidd ac roedd cyllideb yr adran yn talu costau hynny. Rhoddodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd wybod i'r Pwyllgor nad oedd dim effaith ar ddarparu'r gwasanaethau perthnasol ac er bod yr Adran yn dymuno dod â'r mater hwn i'w derfyn cyn gynted

ag y bo modd, roedd dyletswydd ar yr Awdurdod i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r polisïau adnoddau dynol er mwyn sicrhau bod pob achos yn cael ei glywed ac yr ymdrinnir â phob achos yn deg.

Yn ateb i gwestiwn ynghylch pryd y byddai trosglwyddo cyfleusterau cyhoeddus yn cael ei gwblhau, atgoffwyd y Pwyllgor gan Bennaeth y Gwasanaethau Stryd fod trosglwyddo cyfleusterau cyhoeddus i Gynghorau Tref a Chymuned yn ei ail flwyddyn o broses tair blynedd ond cytunodd i edrych ar y camau a gymerwyd a rhoi gwybod i'r Pwyllgor.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch yr amrywiad yn ymwneud â'r Gwasanaeth Cynlluniau Argyfwng, gwaith Fforwm Lleol Cymru Gydnerth a pham roedd yr Awdurdod yn ariannu swydd yng Nghyngor Sir Penfro. Rhoddodd Cyfrifydd y Grŵp a Phennaeth y Gwasanaethau Stryd wybod i'r Pwyllgor fod Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed-Powys yn bartneriaeth amlasiantaeth oedd yn cynnwys gwasanaethau brys a gwasanaethau cyhoeddus allweddol a fyddai'n cydlynu'r ymateb i ddigwyddiad mawr yn y rhanbarth (e.e. tywydd difrifol, damwain fawr yn ymwneud â thrafnidiaeth neu ddiwydiant). Y tu allan i oriau arferol y swyddfa, roedd swyddog a gyflogir gan Gyngor Sir Penfro, wrth law ar gyfer y rhanbarth cyfan a'r £3,000 y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad oedd cyfraniad Sir Gaerfyrddin tuag at y trefniant rhanbarthol hwn.

Cyfeiriwyd at yr amrywiad o £394,000 yng nghyllideb y Gwasanaethau Eiddo oherwydd targed incwm na ellir ei gyflawni a gofynnwyd cwestiwn ynghylch yr hyn oedd yn cael ei wneud i leihau hyn. Roedd Pennaeth Dros Dro Cynnal a Chadw Eiddo ac Adeiladu yn cydnabod bod hwn yn fater hirdymor a bod yr Adran yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Ariannol i'w reoli. Rhagwelwyd y byddai'r adroddiad nesaf ynghylch monitro'r gyllideb yn dangos gostyngiad yn y ffigur hwn wrth i'r Adran ymgymryd â rhaglen o ailstrwythuro a defnyddio gweithwyr mewn meysydd eraill.

Holwyd ynghylch yr amrywiad o £25,000 yn ymwneud â pharcio ceir, yn ogystal â'r effaith y byddai gwaith Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor yn ei chael ar hyn ac ar gynigion yn y dyfodol ynghylch y gyllideb ar gyfer y gwasanaeth hwn. Hefyd cyfeiriwyd at y cynllun peilot parcio am ddim yn Llanelli ac effaith bosibl hynny ar gyllideb y gwasanaeth. Atgoffodd Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianneg y Pwyllgor fod yr amrywiad oherwydd y cynnydd arfaethedig o 20c yn y taliadau a godir ac oherwydd na weithredwyd y taliadau am barcio gyda'r nos. Roedd y data a gasglwyd yn ystod cynllun peilot Llanelli wrthi'n cael eu dadansoddi ar hyn o bryd. Hefyd hysbysodd y Pwyllgor fod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi cwrdd ddwywaith hyd yma. Roedd y cyfarfod diweddaraf a gynhaliwyd wedi canolbwyntio ar y polisïau a'r ddeddfwriaeth oedd yn sail i'r taliadau am barcio a rhagwelwyd y byddai'r adolygiad wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2016 er mwyn cyfrannu gwybodaeth i'r cynigion cyllidebol ar gyfer 2016/17 ac ar ôl hynny.

Yn ateb i gwestiwn am y gwaith yng Nghronfa Ddŵr Trebeddrod, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Stryd wrth y Pwyllgor fod y gwaith yn parhau a bod y cam terfynol i fod i gael ei gwblhau erbyn diwedd Chwefror 2016.

Yn sgil y cynnydd yn y pwysau ariannol a wynebir gan yr Adran, gofynnwyd pa gamau oedd yn cael eu cymryd i reoli'r gweithlu a pharatoi staff ar gyfer newidiadau a gostyngiadau posibl yn y gwasanaethau. Roedd Pennaeth yr Amgylchedd yn cydnabod ei bod yn iawn a phriodol i baratoi am arbedion

effeithlonrwydd yn y dyfodol a bod camau ar waith i reoli'r gweithlu drwy'r cyfnod anodd hwn. Roedd y rhain yn cynnwys y cynllun terfynu cyflogaeth ac edrych ar gyfleoedd i adleoli staff i ddyletswyddau eraill yn yr Adran.

Mynegwyd pryder ynghylch y tangyflawniad o ran incwm ffioedd o fewn y Gwasanaeth Safonau Masnach a gofynnwyd pam na chafodd ffioedd yr Awdurdod eu cynyddu'n raddol yn unol â ffioedd awdurdodau cyfagos. Dywedodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd eu bod yn ymdrin â hyn ond y gellid olrhain y tangyflawniad i'r ffaith y derbyniwyd symiau mawr o incwm am ddigwyddiadau unwaith yn unig. Ers hynny roedd y symiau hyn wedi'u dilysu'n rhan o gyllidebau'r blynyddoedd i ddod er na fyddai'r gwasanaeth byth wedi gallu cyflawni'r un lefel o incwm mewn unrhyw flwyddyn 'arferol'. Roedd hon yn broblem a wynebai sawl gwasanaeth arall ar draws yr Awdurdod ac roedd angen datrys hyn ar y cyd â'r Gwasanaethau Ariannol.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch colli'r Gronfa Diogelwch Cymunedol a lle y dyrannwyd y cyllid hwn. Dywedodd y Rheolwr Diogelwch Cymunedol wrth y Pwyllgor nad gorwariant oedd hwn ond cronfa grant a gafwyd o'r blaen gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu fel cyfraniad tuag at weithredu'r gwasanaeth Teledu Cylch Cyfyng. Fodd bynnag, roedd y Comisiynydd wedi atal y cyllid hwn ar ddechrau'r flwyddyn ariannol ac yng ngoleuni hynny roedd y Bwrdd Gweithredol hefyd wedi atal cyfraniad yr Awdurdod i'r gwasanaeth. Fodd bynnag, hyd nes i'r gwasanaeth roi'r gorau i'r gweithrediadau ym mis Gorffennaf, roedd yr Awdurdod yn parhau i orfod talu'r costau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad. Roedd y ffigyrau'n parhau i gael eu dangos yn yr adroddiad gan fod y costau wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.

Trafodwyd y rhaglen i gael fflyd gerbydau arall i'r Cyngor yn lle'r un bresennol a chyfeiriwyd at gyflwr y fflyd bresennol a'r gostyngiad yn nifer y cerbydau arbenigol oedd ar gael i wasanaethu ardaloedd penodol o'r sir. Cadarnhaodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianneg fod archeb gwerth £6 miliwn wedi'i chyflwyno i'r cyflenwyr a rhagwelwyd y byddai'n cael ei chyflawni yn 2016. Roedd yr archeb hon wedi blaenoriaethu cerbydau newydd ar gyfer casglu gwastraff a cherbydau ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol. Byddai'r Gwasanaethau Priffyrdd yn rhan o'r cylch nesaf o archebion a'r flaenoriaeth oedd dynodi'r strategaeth ar gyfer cael cerbydau newydd a gweithio gyda defnyddwyr y gwasanaethau. Roedd yn cydnabod bod cerbydau hŷn yn anweithredol am gyfnod hwy a bod hyn yn cael ei fonitro'n ddyddiol ond nid oedd yn bosibl cael y ffigyrau terfynol ar gyfer nifer y cerbydau newydd oherwydd byddai adolygiadau oedd ar waith o'r gwasanaethau yn effeithio ar hyn. Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Stryd y Pwyllgor y byddai angen i'r Adran, yng ngoleuni'r pwysau ariannol parhaus, ailddiffinio safonau'r gwasanaethau a byddai nifer y cerbydau sydd ar gael yn effeithio ar y rhain.

Mynegwyd pryderon ynghylch cyflwr rhwydwaith priffyrdd y Sir ac yn enwedig y rhwydwaith ffyrdd gwledig. Gofynnwyd a oedd yr Adran wedi archwilio dewisiadau eraill yn lle Menter Benthyca Llywodraeth Leol a oedd wedi dod i ben yn Ebrill 2015 er mwyn gwella'r ffyrdd ac atal yr Awdurdod rhag cael ei ddal yn atebol am unrhyw ddamweiniau a achosir gan wynebau ffyrdd gwael. Roedd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd yn cydnabod y sylwadau ond pwysleisiodd bod y swyddogion yn bwriadu cynhyrchu a thynnu i lawr gyllid ychwanegol yn ogystal â blaenoriaethu'r adnoddau yr oedd gan yr Adran yn barod i ymdrin â'r broblem. Gan fod hwn yn fater oedd yn wynebu holl awdurdodau Cymru, roedd cyfleoedd i weithio ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill i dynnu i lawr gyllid ychwanegol a chanfod atebion

blaengar i gynnal a chadw'r rhwydwaith priffyrdd. Nododd Pennaeth y Gwasanaethau Stryd fod swyddogion llywodraeth leol â chyfrifoldeb dros briffyrdd, wedi bod yn lobïo Llywodraeth Cymru drwy Gymdeithas y Syrfewyr Sir am estyniad i'r cynllun Menter Benthyca Llywodraeth Leol ond roedd hyn wedi'i wrthod gan weinidogion.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 7. ADRODDIAD HANNER BLWYDDYN YNGHYLCH RHEOLI PERFFORMIAD - 1AF EBRILL TAN 30AIN MEDI 2015

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Adroddiad Hanner Blwyddyn ynghylch Rheoli Perfformiad ar gyfer y gwasanaethau o fewn ei faes gorchwyl, am y cyfnod o'r 1af Ebrill tan 30ain Medi 2015. Roedd yr adroddiad yn cynnwys:

- Golwg Gyffredinol ar y Perfformiad gan Benaethiaid y Gwasanaethau
- Monitro’r Cynllun Gwella – Camau Gweithredu a Mesurau Perfformiad
- Monitro Cwynion a Chanmoliaeth
- Ystadegau Troseddau yn Sir Gaerfyrddin

Trafodwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:

Cyfeiriwyd at gynlluniau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a gofynnwyd a oedd cyfle i'r Awdurdod Lleol wneud defnydd o dŷ'r Heddlu yn Felin-foel oedd yn wag, yn enwedig yng ngoleuni'r galw am dai cymdeithasol. Nododd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd fod gan yr Awdurdod gyllid i sicrhau bod eiddo gwag yn cael ei ddefnyddio eto fel tai cymdeithasol a chytunodd y Rheolwr Diogelwch Cymunedol i egluro'r mater gyda Heddlu Dyfed-Powys.

Yn ateb i gwestiwn ynghylch statws y cynllun uwchraddio goleuadau cyhoeddus, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Stryd wrth y Pwyllgor bod cais Buddsoddi i Arbed a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru wedi bod yn llwyddiannus yn ôl datganiad i'r wasg er nad oedd y swyddogion wedi cael eu hysbysu'n swyddogol o hyn eto. Byddai'r cyllid o £1.4 miliwn yn helpu i ariannu newid tua 12,500 o oleuadau stryd yn unedau LED ac y disgwylir arbedion o £600,000 y flwyddyn ar ynni a llafur.

Awgrymwyd er bod yr adroddiad yn nodi gostyngiadau hyd at ddiwedd 2014/15, byddai'r ffigyrau ar gyfer marwolaethau ar y ffyrdd yn uwch yn dilyn nifer y rhai a gafodd eu lladd yn ystod haf 2015. Roedd y Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianneg yn cydnabod bod y ffigyrau ar gyfer damweiniau wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ac roedd yr ymchwil a wnaed gyda Heddlu Dyfed-Powys yn dangos mai ymddygiad gyrwyr oedd yn bennaf gyfrifol am achosi hyn. Roedd y cynnydd yn nifer y beicwyr modur a gafodd eu lladd yn destun pryder mawr ac roedd yr Awdurdod yn parhau i weithio'n galed i leihau nifer y digwyddiadau hynny, yn enwedig drwy ymgyrchoedd ar y cyd â Heddlu Dyfed-Powys (e.e. ‘Ymgyrch Darwen’) a chynlluniau addysgol.

Yn ateb i ymholiadau ynghylch Ffordd Osgoi Llandeilo, atgoffodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianneg y Pwyllgor fod ymrwymiad i'r ffordd osgoi yn y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol ac y byddai amrywiol astudiaethau yn ymwneud â'r llwybr arfaethedig yn dechrau erbyn diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, roedd

angen goresgyn nifer o rwystrau cyn y gellid cychwyn ar unrhyw waith adeiladu. Ychwanegodd fod y llwybr a ffafrir wedi cael ei nodi a'i warchod rhag unrhyw ddatblygiadau tai ond y byddai unrhyw newidiadau i'r llwybr hwn yn cael ei ystyried gan y gweinidog fel rhan o'r broses statudol.

Mewn perthynas â chwestiwn am y cydweithio rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Lleol yn ymwneud â herwhela pysgod cregyn, cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus fod swyddogion yn wir yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru a bod gan y ddau gyfrifoldeb penodol dros wahanol ardaloedd ar hyd morlin Sir Gaerfyrddin. Fodd bynnag, oherwydd maint yr ardal dan sylw, roedd yn anodd monitro a phlismona'r morlin oherwydd diffyg adnoddau gan yr asiantaethau perthnasol.

Awgrymwyd gofyn i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol lobïo Llywodraeth Cymru i gynyddu'r gwaith o fonitro'r gwelyau pysgod cregyn ym Mae Caerfyrddin er mwyn atal a rhwystro herwhela. Hefyd awgrymwyd oherwydd ymddygiad ymosodol yr herwhelwyr, y dylid anfon copïau at Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac Asiantaeth Ffiniau'r DU o unrhyw ohebiaeth a anfonir at Lywodraeth Cymru. Cytunodd y Pwyllgor â'r cynnig hwn.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch statws Asesiad TEEP (ymarferol yn dechnegol, yn economaidd ac yn amgylcheddol) o drefniadau casglu deunyddiau gwastraff ac ailgylchu Sir Gaerfyrddin, mewn ymateb i ddymuniad Llywodraeth Cymru i safoni'r prosesau ar draws Cymru ar gyfer systemau didoli ymyl y ffordd. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Stryd fod ymgynghorydd allanol a gyflogir gan yr Awdurdod yn cynnal asesiad trosolwg lefel uchel cychwynnol o fethodoleg casglu Sir Gaerfyrddin, ac y byddai'n adrodd nôl maes o law. Roedd yr Awdurdod wedi egluro'n llawn ei syniadau ynghylch methodolegau casglu i swyddogion Llywodraeth Cymru yn y gorffennol. Dywedodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd wrth y Pwyllgor fod y Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor hefyd wedi cwrdd â Llywodraeth Cymru ac wedi cyflwyno sylwadau cryf i'r gweinidogion ynghylch safbwynt Sir Gaerfyrddin sef y dylai awdurdodau lleol fod yn rhydd i ddefnyddio pa broses bynnag oedd yn diwallu eu hanghenion nhw orau.

Mynegwyd siom fod adran Canmoliaeth a Chwynion yr adroddiad yn dal i adael allan ymholiadau gan Gynghorwyr oedd yn aml yn gwynion ond a gyflwynwyd drwy broses wahanol. Y farn oedd nad oedd yr adroddiad felly'n wir adlewyrchiad o'r cwynion a'r ganmoliaeth a gafodd yr Awdurdod. Cytunodd y Cadeirydd a'r Ymgynghorydd Cynorthwyol i anfon y sylwadau ymlaen at y swyddog perthnasol oedd â chyfrifoldeb dros yr adroddiadau hyn.

**PENDERFYNWYD:**

**7.1 Bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**7.2 Bod yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol (Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd) yn cael ei ofyn i lobïo Llywodraeth Cymru i ddyrannu (ar y cyd â'r asiantaethau perthnasol), adnoddau ychwanegol er mwyn gallu cynyddu'r gwaith monitro yn ardal Bae Caerfyrddin er mwyn atal herwhela pysgod cregyn.**

## 8. MATER A GYFEIRIWYD AT Y PWYLLGOR CRAFFU - DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD

Bu'r Pwyllgor yn ystyried mater a gyfeiriwyd gan y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau. Eglurodd yr Ymgynghorydd Cynorthwyol gefndir y mater a gyfeiriwyd a rhoddodd ddiweddariad i'r Pwyllgor ynghylch y cynigion am fformat newydd i'r adroddiadau monitro perfformiad a ddeuai gerbron y pwyllgorau craffu ac a fyddai'n cael ei rannu â'r aelodau etholedig mewn sesiwn briffio ar 14 Ionawr 2016 (2:00pm).

Awgrymodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd fod y sesiwn hon yn rhoi cyfle delfrydol i aelodau fynegi eu barn ynghylch cynnwys yr adran Canmoliaeth a Chwynion i'r swyddogion.

Mynegwyd siom y byddai'r sesiwn briffio arfaethedig yn cael ei chynnal yn y prynhawn gan ei bod yn anodd i aelodau etholedig oedd yn gweithio ac oedd â phlant oedran ysgol i ddod i'r sesiwn.

Cytunodd yr Ymgynghorydd Cynorthwyol i adrodd nôl sylwadau gan aelodau i'r swyddogion perthnasol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 9. EGLURHAD YNGHYLCH PEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIADAU CRAFFU

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL bod y rhesymau dros beidio â chyflwyno'r Adolygiad o'r Polisi Hapchwarae a'r Adolygiad o'r Polisi Trwyddedu, yn cael eu nodi.**

## 10. Y PWYLLGOR CRAFFU – DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD: Y DIWEDDARAF YNGHYLCH CAMAU GWEITHREDU AC ATGYFEIRIADAU

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad diweddaru a fanylai ar y cynnydd o ran y camau gweithredu, y ceisiadau, neu'r atgyfeiriadau oedd wedi deillio o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Craffu. Trafodwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:

Cyfeiriwyd at y cyfarfod ar y cyd a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Craffu Addysg a Phlant ym Medi er mwyn trafod y cynigion ar gyfer Cynnal Cludiant i'r Ysgol / Coleg ar gyfer Myfyrwyr Ôl-16 oed a gofynnwyd pryd y byddai'r mater hwn a'r safbwyntiau a fynegwyd gan aelodau'r pwyllgor yn cael eu hystyried gan y Bwrdd Gweithredol. Atgoffodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianneg y Pwyllgor fod yr ymgynghoriad wedi dod i ben ar 10 Tachwedd 2015 ac y byddai'r holl sylwadau a ddaeth i law yn cael eu hystyried ac y byddent yn llunio rhan o'r adroddiad terfynol. Byddai rhan o'r broses hefyd yn cynnwys diweddaru'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Yn ateb i gwestiynau pellach am y broses ymgynghori, atgoffodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianneg a'r Pen-swyddog Busnes a Datblygu y Pwyllgor fod croeso i'r holl aelodau ddod i'r nosweithiau agored a gynhaliwyd yn ysgolion uwchradd a champysau addysg bellach y sir a bod newyddlen ac e-bost yn rhoi

gwybod i'r aelodau etholedig am y broses, wedi'u cylchredeg yn Hydref 2015. Fodd bynnag, roedd croeso i'r aelodau etholedig gysylltu â swyddogion os dymunent drafod neu egluro unrhyw faterion yn ymwneud â'r broses ymgynghori.

Cyfeiriwyd at y gwrthwynebiad parhaus a fynegwyd gan aelodau etholedig yn erbyn cynigion i godi tâl ar sefydliadau addysg am gludiant. Roedd y Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianneg yn cydnabod bod yr aelodau etholedig yn teimlo'n gryf am hyn ond atgoffodd y Pwyllgor am gyd-destun y cynigion, sef y gostyngiad o £39 miliwn mewn refeniw a oedd yn wynebu'r Awdurdod Lleol. Roedd strategaeth y gyllideb a gytunwyd gan y Cyngor yn Chwefror 2015 yn cynnwys y cynnig hwn yr oedd ymgynghori yn ei gylch ar hyn o bryd ond byddai'n rhaid i unrhyw newid yn y polisi gael cymeradwyaeth y Cyngor Sir cyn y gellid ei weithredu.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 11. LLOFNODI BOD COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 18FED MEDI 2015 YN GOFNOD CYWIR

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Gwener 18fed Medi 2015 yn gofnod cywir.**

## 12. LLOFNODI BOD COFNODION CYFARFOD AR Y CYD Y PWYLLGOR CRAFFU – DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD A'R PWYLLGOR CRAFFU – ADDYSG A PHLANT A GYNHALIWYD AR 18FED MEDI 2015 YN GOFNOD CYWIR

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Gwener 18fed Medi 2015 yn gofnod cywir.**

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**